

CYFARFOD	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
DYDDIAD	15 Gorffennaf 2021
TEITL	Adolygiad Ffordd Gwynedd
PWRPAS YR ADRODDIAD	Hysbysu'r Aelodau o gasgliadau'r Archwiliwr Dosbarth ac adrodd ar y camau nesaf arfaethedig
AWDUR	Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys
GWEITHREDIAD	Derbyn yr adroddiad a chefnogi'r camau nesaf sydd yn cael eu hargymhell

1. CYFLWYNIAD

O ganlyniad i Swyddfa Archwilio Cymru gynnal adolygiad ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym maes gofal cymdeithasol oedolion o fewn y Cyngor yn 2019, bu i'r Cyngor gytuno efo'r Archwiliwr Dosbarth y byddai'n fuddiol cynnal adolygiad dilynol o gynnydd Ffordd Gwynedd ar draws ein holl wasanaethau. Mae casgliadau'r Archwiliwr yn bennaf seiliedig ar gyfweiliadau a gynhaliwyd yn ystod Hydref 2020 gyda phob Pennaeth Adran a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn ogystal a'r wybodaeth a gasglwyd mewn amryw archwiliadau ac adolygiadau dros y pum mlynedd blaenorol.

Mae'r llythyr a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n crynhoi prif gasgliadau yr Archwiliwr, i'w weld yn Atodiad 1.

Mae Tîm Rheoli'r Cyngor (Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r 10 Pennaeth Adran) wedi ystyried y casgliadau ac wedi cytuno ar raglen waith cychwynol sy'n cyfarch ac yn ymateb i nifer o'r casgliadau hynny.

Un o'r camau cyntaf y mae'r Prif Weithredwr ei hun yn awyddus i arwain arno yw i gynnal adolygiad ar ffurf hunan-asesiad ymhob Adran, fydd yn adnabod sut ac i ba raddau mae egwyddorion y "Ffordd Gwynedd" o weithio wedi gwreiddio ar draws y Cyngor. Mae'r bwriad hwn yn cyd-fynd hefo dymuniad aelodau'r Pwyllgor hwn i ffurfio "Grŵp Tasg a Gorffen" er mwyn adolygu'r cynnydd sydd wedi'i gyflawni yn enw Ffordd Gwynedd yn y Cyngor.

Yng nghyfarfod y Gweithgor Craffu a gynhaliwyd hefo aelodau'r Pwyllgor hwn ar y 4ydd o Fai eleni, cytunwyd i amseru gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen yn ystod yr Hydref eleni. Mae'r Prif Weithredwr wedi cynnig ei fod yn cydweithio hefo aelodau'r Grŵp Tasg a Gorffen, a swyddogion eraill, er mwyn llunio briff i'r Adolygiad ac yna i ystyried y casgliadau a chynnig argymhellion o ganlyniad.

2. ARGYMHELLIAD

Bod y Grŵp Tasg a Gorffen yn cael ei sefydlu, o 'fysg aelodau'r Pwyllgor hwn, er mwyn cydweithio efo'r Prif Weithredwr i gynnal adolygiad o sut ac i ba raddau y mae egwyddorion y "Ffordd Gwynedd" o weithio wedi gwreiddio ar draws y Cyngor.